Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2024/25

Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r Grŵp Ffocws Rhieni – Tymor yr Hydref 2024

**Dyddiad cyfarfod yr Ysgol Waelod** - 5/11/2024

Rhieni yn bresennol: Miss Danielle Clayfield a Miss Ceri Metcalfe

Staff yn bresennol: Mrs Griffiths, Miss Williams a Mr Scourfield

1. Mae nifer o rieni wedi mynegi eu bod nhw'n anhapus gyda'r lleoliadau ar gyfer cyngherddau Nadolig eleni. Maent yn rhy bell o'r ysgol, ac mae'n rhaid i rieni deithio tu hwnt i ddalgylch yr ysgol i fynd iddynt.

   Ymateb: Mae trefnu lleoliadau ar gyfer ein cyngherddau Nadolig yn creu problemau bob blwyddyn ac er i ni gysylltu â nifer o leoliadau, nid oes unrhyw atebion amlwg. Er fy mod i'n cytuno nad yw rhai o'r lleoliadau'n ddelfrydol, nid oes llawer o ddewis gennym. Yn anffodus, nid oes digon o leoliadau lleol ar gael sy'n addas ar gyfer cynnal cyngherddau, yn enwedig ar gyfer ysgol mawr fel Ysgol Gymraeg Pontybrenin. Mae'r lleoliadau lleol rydym wedi'u defnyddio yn y gorffennol, neu'r rhai sy'n addas at y diben, i gyd yn achosi problemau i ryw raddau, e.e. Neuadd Les Casllwchwr (dim ond dwy noson oedd ar gael ym mis Rhagfyr ac rydym wedi cymryd y ddwy noson hyn), Ysgol Gyfun Penyrheol (dim argaeledd yn ystod y dydd felly does dim modd i ni ymarfer), Canolfan Gorseinon (dim llwyfan) ayyb. Mae'n rhaid bod gan leoliadau ddigon o seddi, llwyfan, system goleuadau a sain, mynediad yn ystod y dydd fel y gallwn ymarfer a maes parcio sy'n weddol agos, os yn bosib. Mae'r ysgol yn cysylltu â lleoliadau lleol yn flynyddol mewn ymdrech i drefnu cyngherddau yn agosach atom ond heb unrhyw lwyddiant. Mae'n broblem sy'n fwy heriol i'w datrys nag y mae'n edrych. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i chwilio eto y flwyddyn nesaf yn y gobaith y gallwn ddatrys y broblem. Fodd bynnag, os oes unrhyw un yn gwybod am leoliad addas sy'n bodloni'r meini prawf, cysylltwch â'r ysgol.

2. Mae'r ymateb i'r portreadau unigol eleni gan 'Roz & Kirsty Photography' wedi bod yn arbennig o gadarnhaol.

   Ymateb: Gwnaeth Roz a Kirsty waith gwych yn tynnu lluniau cynifer o blant mewn cyfnod mor fyr, ac mae'n wych clywed bod rhieni'n hapus â'r cynnyrch terfynol.

3. Mae nifer o rieni'n pryderu bod gormod o blant ym mhob dosbarth, yn

Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

enwedig y dosbarthiadau derbyn a oedd yn llawer llai y llynedd.

Ymateb: Mae'r hinsawdd economaidd bresennol wedi arwain at yr ysgol yn gorfod arbed llawer o arian er mwyn cydbwyso'r gyllideb, ac fel rhan o'r mesurau hyn mae nifer y plant ym mhob dosbarth wedi cynyddu. Gan y disgwylir i'r rhagolwg ariannol fod yn wael am y dyfodol rhagweladwy, mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn parhau i wneud popeth y gall i sicrhau bod pob disgybl yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn ddiogel ac yn hapus, a bod ganddynt fynediad at gwricwlwm eang a chytbwys.

4. Er gwaethaf y nifer sylweddol o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol, mae ymdeimlad cymunedol gwych yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin ac mae llawer o rieni'n gwerthfawrogi hynny, yn enwedig pan fydd eu plant yn dechrau ar eu taith yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn.

   Ymateb: Er y bydd gennym 591 o ddisgyblion ar y gofrestr ar ôl i ni dderbyn y mewnlif olaf o ddisgyblion Meithrin y tymor nesaf, mae'r ysgol wedi cynnal ei hethos cymunedol er gwaethaf niferoedd cynyddol. Rydym wedi meithrin yr amgylchedd groesawgar hwn ers sawl blwyddyn diolch i ymdrechion pob aelod o deulu YGG Pontybrenin, ac er gwaethaf heriau amrywiol, mae'n parhau i ffynnu.

5. Oes unrhyw bosibilrwydd y gall y Clwb Brecwast ddechrau'n gynharach yn y bore?

   Ymateb: Dyma gwestiwn a ofynnir yn flynyddol ac yn anffodus, yr un yw’r ateb. Mae'r rhan fwyaf o'r staff sy'n goruchwylio disgyblion yn y clwb brecwast yn rhieni eu hunain ac nid yw dechrau eu diwrnod gwaith yn gynharach yn bosib ar hyn o bryd. Fodd bynnag, caiff hyn ei adolygiad yn flynyddol.

6. Hoffai rieni disgyblion y Meithrin fynegi eu diolch i staff y Meithrin, yn enwedig Mrs Fewings a Mrs Roberts, am estyn croeso mor dwymgalon i'r disgyblion a'u rhieni ers mis Medi.

   Ymateb: Mae bob amser yn hyfryd i glywed bod ein disgyblion ieuengaf wedi ymgartrefu'n dda ac rydym yn ffodus iawn bod gan YGG Pontybrenin dîm o staff gwych yn y dosbarth Meithrin, sy'n sicrhau bod ein disgyblion a'u teuluoedd yn cael croeso cynnes pan fyddant yn dechrau ar eu taith yn yr ysgol.

7. Roedd rhiant disgybl gydag anghenion dysgu ychwanegol yn awyddus i rannu ei gwerthfawrogiad ar gyfer popeth mae'r ysgol wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, i gefnogi ei mab wrth sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn hapus, a bod

ganddo fynediad llawn at y cwricwlwm.

Ymateb: Diogelwch a hapusrwydd ein disgyblion yw ein prif flaenoriaeth ac mae'n bleser i glywed bod y teulu penodol hwn yn teimlo ein bod ni wedi cyrraedd y nod hwnnw. Ar ben hynny, mae Mrs Brinn-Philips, ein Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, wedi meithrin perthynas agos ac adeiladol gyda llawer o'n rhieni ers iddi ymgymryd â'i rôl ym mis Ebrill, ac mae'n parhau i ymdrechu i sicrhau bod gan bob disgybl fynediad llawn at y cwricwlwm, a'u bod yn gwneud cynnydd hyd eithaf eu gallu.

8. Gwnaeth nifer o rieni fynegi eu gwerthfawrogiad ar gyfer yr amrywiaeth wych o glybiau allgyrsiol y mae'r ysgol yn eu cynnig.

   Ymateb: Ers sawl blwyddyn mae YGG Pontybrenin wedi ymfalchïo mewn darparu dewislen helaeth o glybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion blwyddyn 1 - 6, ac nid yw eleni'n wahanol. Gydag wyth clwb i ddewis ohonynt yn ystod tymor yr hydref, mawr obeithiwn bod rhywbeth ar gyfer pob disgybl, a braf yw clywed bod disgyblion yn mwynhau'r clybiau hyn yn fawr. Rhaid diolch yn fawr i staff yr ysgol am roi o'u hamser i drefnu'r clybiau hyn ac am ddarparu'r cyfleoedd ychwanegol i'n disgyblion.

9. Roedd nifer o rieni eisiau mynegi eu gwerthfawrogiad ar gyfer y disgos a gynhaliwyd gan Ffrindiau YGG Pontybrenin yn ddiweddar.

   Ymateb: Er mai llond llaw o 'Ffrindiau' sydd, maent yn llwyddo i godi miloedd o bunnoedd bob blwyddyn ar gyfer yr ysgol, ar adeg lle mae'r sefyllfa ariannol yn heriol iawn. Trwy drefnu'r disgos a digwyddiadau amrywiol eraill, maent yn ein galluogi ni i brynu adnoddau na fyddent ar gael i'r ysgol fel arall. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth ac am roi mor hael o'u hamser i'n helpu. Diolch!

**Dyddiad cyfarfod yr Ysgol Uwch** - 6/11/24

Rhieni yn bresennol: Mrs Abi Hobson a Mrs Meryl Probert

Staff yn bresennol: Mr Scozzi, Mr Horan a Mr Scourfield

1. Mae nifer o rieni disgyblion Blwyddyn 6 wedi gofyn pam taw eu plant nhw yw'r olaf i gael cinio bob tro?

   Ymateb: Mae sicrhau bod digon o le i 300+ o ddisgyblion gael cinio o fewn amser cyfyngedig yn her ddyddiol ac mae ein disgyblion iau yn cymryd mwy o amser yn bwyta'u cinio na'u cyfoedion hŷn, felly mae'n anochel bod yn rhaid i

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

flwyddyn 5 a 6 fwyta yn olaf. Fodd bynnag rydym wedi cyflwyno amserlen lle mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 bellach yn cymryd tro i fwyta'u cinio, sy'n golygu nad yw blwyddyn 6 bob amser yn bwyta'n olaf.

2. Oes modd rhannu dyddiadau HMS â rhieni yn gynharach?

   Ymateb: Mae'r ysgol yn rhannu dyddiadau'r holl ddiwrnodau HMS â rhieni cyn gynted ag y cytunir arnynt. Fodd bynnag, mae nifer bach o ddiwrnodau HMS yn cael eu cadw yn ôl fel y gellir penderfynu ar ddyddiadau yn hwyrach yn y flwyddyn er mwyn ymateb i anghenion hyfforddiant wrth iddynt godi. Eto, cyn gynted ag yr ydym yn cytuno ar y dyddiadau hyn, fe'u rhennir â rhieni yn syth.

3. Mae rhai rhieni wedi mynegi pryderon nad yw eu plant yn cael eu herio digon gan y system gwahaniaethu 'chillis' a ddefnyddir gan ddisgyblion yn yr Ysgol Uwch wrth ddewis tasgau.

   Ymateb: Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynegi barn am eu dysgu a'u bod yn parhau i ddatblygu eu sgiliau annibynnol, maent yn cael dewis lefel yr her maent am ymgymryd ar gyfer nifer o'u tasgau. Fodd bynnag, gwneir hyn ar y cyd â'r athro dosbarth ac anogir pob disgybl i herio'i hun er mwyn gwneud cynnydd yn ei ddysgu. Os yw'r athro dosbarth yn teimlo bod disgybl yn dewis yr opsiwn hawdd, bydd ef/hi yn cael sgwrs agored ac onest â'r disgybl i drafod hyn. Fodd bynnag, ers rhoi'r system ar waith y llynedd, rydym yn gweld bod disgyblion yn awyddus i ymgymryd â her, gan wella eu hunanhyder yn y broses.

4. A fyddai'n bosib cael mwy o rybudd ar gyfer cyngherddau Nadolig?

   Ymateb: Eleni, rhannwyd dyddiadau'r cyngherddau Nadolig â rhieni ar Hydref 18fed, bron deufis cyn y cyngherddau. Er mai dod o hyd i leoliadau addas oedd y prif reswm am yr oedi eleni, byddwn yn gwneud pob ymdrech i rannu'r dyddiadau hyn â rhieni yn gynharach y flwyddyn nesaf os yn bosib.

5. Dywedodd un rhiant bod ei phlentyn yn anhapus bod ei gyfoedion yn cael gadael y dosbarth 20 munud yn gynnar ar brynhawn Dydd Mawrth er mwyn mynd i'r clwb pêl-droed allgyrsiol.

   Ymateb: Er bod aelodau'r clwb pêl-droed allgyrsiol yn gadael y dosbarth yn gynnar, gwneir hyn fel y gallant gerdded i Gae Duke, lle cynhelir y clwb. Heb iddyn nhw adael yng nghynt, byddai gan ddisgyblion ond 30 munud o amser chwarae ar y cae. Ga'i ychwanegu bod y clwb hwn yn agored i holl ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 felly nid oes angen i unrhyw un deimlo ei bod yn colli allan.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

6. Mae gormod o beli droed ar y buarth yn ystod amser egwyl ac amser cinio ac o ganlyniad, mae plant yn cael eu taro â pheli drwy'r amser.

   Ymateb: Mae'r Ysgol Uwch yn chwarae ar ddau fuarth - nid oes hawl defnyddio pêl ar un ohonynt, ac mae'r llall ar gyfer disgyblion sy'n dewis chwarae pêl-droed neu bêl-fasged (mae amserlen fesul blwyddyn). Wrth gwrs, mae perygl bod unigolion sy'n dewis chwarae ar y buarth lle caniateir gemau pêl, yn cael eu taro gan beli. Anogir y disgyblion sydd am osgoi hyn i chwarae ar y buarth lle nad oes peli. Hoffwn ychwanegu hefyd fod angen i nifer o'r disgyblion yn yr Ysgol Uwch gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol fel gemau pêl er mwyn cael gwared o'u hegni.

7. Mae rhai rhieni wedi gofyn am ragor o gyfleoedd i gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb gydag athrawon.

   Ymateb: Er bod pob ysgol yn nodi bod ganddi bolisi drws agored, mae Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn byw y cysyniad hwn ac mae staff yn aml yn cwrdd â rhieni cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol i drafod materion amrywiol.
   Os hoffai rhieni nad ydynt yn casglu/gollwng eu plant yn yr ysgol gwrdd ag athro eu plentyn, gallant drefnu cyfarfod ar unrhyw adeg drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol.
   Yn ogystal â'r cyfleoedd hyn, mae ein nosweithiau rhieni, a gynhelir yn 'hybrid' ers y tair blynedd diwethaf, wedi caniatáu i rieni gwrdd ag athrawon yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. Er bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi eu cyfyngu i un diwrnod penodol yn ddiweddar, o fis Mawrth bydd pob noswaith rhieni yn 'hybrid', sy'n golygu y gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ar-lein ar bob dyddiad.

Diolch i bawb a gyfrannodd sylwadau i'r fforymau hyn. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gennych a gobeithiwn y byddwch yn sylwi ar y gwelliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os ydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach.

Cynhelir y rownd nesaf o gyfarfodydd Grwpiau Ffocws Rhieni yn ystod ail hanner tymor y gwanwyn.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.
Yn ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth